Clwb y Llygaid Bach
Llên Natur

# Tylluanod

## R. Williams Parry (1)

*Prosiect Llên Natur Cymdeithas Edward Llwyd*

### Y PENNILL CYNTAF

*Bu R. Williams Parry yn athro yn Ysgol Sir Brynrefail o 1908 hyd 1910, ei swydd gyntaf. Mae'n debygol y byddai'n croesi Pont Pen Llyn yn aml. Dyma'r bont sydd ar derfyn gwaelod Llyn Padarn cyn llifo i Afon Rhythallt ac yna Afon Saint (Seiont i rai) cyn cyrraedd Caernarfon a Chulfor Menai.*


Tylluan Frech
*Llun - Alun Williams*


A'r bont yn wag sy'n croesi'r dŵr

***'Pan fyddai'r nos yn olau***
***a llwch y ffordd yn wyn***
***a'r bont yn wag***
***sy'n croesi'r dŵr***
***difwstwr ym Mhen Llyn,***




Dŵr difwstwr ym Mhen Llyn.


Llwyncoed, Cwm y Glo

***Y tylluanod yn eu tro,***
***Glywid o Lwyncoed, Cwm y Glo.'***

**Mae pedwar o benillion yn y gerdd. Sonnir am Llyn y Ffridd, Ffridd y Llyn, Afon Glaslyn ac Ynysfor. Beth am chwilio ble mae y rheiny?**
**Dyma Tara Bethan yn canu'r gân:**